



Comisiwn Ffiniau  
i Gymru

Boundary Commission  
for Wales

Comisiwn Ffiniau  
i Gymru

# Arolwg Etholaethau Seneddol 2023

Adroddiad Cynnydd Cymru - Ionawr 2023

# **Comisiwn Ffiniau i Gymru**

## **Arolwg Etholaethau Seneddol 2023 Cymru**

### **Adroddiad ar gynnydd yn ystod 2022**

Fe'i cyflwynwyd i'r Senedd yn unol ag Adran 3(2C)  
Deddf Etholaethau Seneddol 1986, fel y'i diwygiwyd gan  
Ddeddf System Bleidleisio Seneddol ac Etholaethau 2011 a Deddf Etholaethau  
Seneddol 2020.

© Hawlfraint y Goron 2023

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored, fersiwn 3.0, ac eithrio lle y nodir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i <http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3> neu ysgrifennwch at y Tîm Polisi Gwybodaeth, yr Archifau Cenedlaethol, Kew, Llundain TW9 4DU, neu anfonwch neges e-bost at: [psi@nationalarchives.gsi.gov.uk](mailto:psi@nationalarchives.gsi.gov.uk).

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn [www.comffin-cymru.gov.uk](http://www.comffin-cymru.gov.uk)

Dylai unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn gael eu hanfon atom yn y cyfeiriad canlynol:

Comisiwn Ffiniau i Gymru  
Llawr Gwaelod  
Tŷ Hastings  
Llys Fitzalan  
Caerdydd  
CF24 0BL.

E-bost: [cffg@ffiniau.cymru](mailto:cffg@ffiniau.cymru)

**Y Llefarydd**  
**Tŷ'r Cyffredin**  
**Llundain**  
**SW1A 0AA**

**31 Ionawr 2023**

**Annwyl Mr Gadeirydd**

### **Cyflwyniad**

1. Mae'r adroddiad hwn, fel sy'n ofynnol gan adran 3(2B) Deddf Etholaethau Seneddol 1986 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf System Bleidleisio Seneddol ac Etholaethau 2011 a Deddf Etholaethau Seneddol 2020), y cyfeirir ati o hyn ymlaen fel 'y Ddeddf', yn amlinellu'r cynnydd y mae'r Comisiwn Ffiniau i Gymru ("y Comisiwn") wedi'i wneud wrth baratoi'r arolwg o ffiniau sydd i'w gyflwyno cyn 1 Gorffennaf 2023. Fel y gwyddoch, mae adran 3(2C) yn mynnu eich bod yn cyflwyno ein hadroddiad gerbron y Senedd.

### **Cynnydd hyd yma**

2. Er mwyn rhoi cefndir, cyhoeddodd y Comisiwn ei gynigion cychwynnol ar 8 Medi 2021 a chynhaliodd gyfnod ymgynghori 8 wythnos a ddaeth i ben ar 3 Tachwedd 2021. Derbyniodd y Comisiwn 1,211 o gyflwyniadau ysgrifenedig a chyhoeddwyd y rhain ar 17 Rhagfyr 2021.
3. Roedd y Comisiwn wedi bwriadu cynnal ei ail gyfnod ymgynghori o 11 Ionawr 2022 tan 21 Chwefror 2022. Fodd bynnag, oherwydd yr heriau iechyd cyhoeddus parhaus, fe'i gohiriwyd ac fe'i cynhaliwyd o 17 Chwefror 2022 tan 30 Mawrth 2022. Yn ystod y cyfnod ymgynghori hwn, cynhaliodd y Comisiwn bum gwrandawriad cyhoeddus yn Aberystwyth, Bangor, Wrecsam, Abertawe a Chaerdydd. Rhoddwyd tystiolaeth yn y gwrandawriadau cyhoeddus wyneb yn wyneb, ond ffrydiwyd y gwrandawriadau cyhoeddus yn fyw hefyd. Roedd 81 o gyfranogwyr yn y gwrandawriadau cyhoeddus a derbyniodd y Comisiwn 156 o gyflwyniadau ysgrifenedig yn ystod y cyfnod hwn hefyd. Coladwyd, cyfieithwyd a chyhoeddwyd yr holl gyflwyniadau a thrawsgrifiadau o wrandawriadau cyhoeddus ar 22 Mehefin 2022.
4. Roedd y tîm o bedwar Comisiynydd Cynorthwyol a gynhaliodd y gwrandawriadau cyhoeddus yn yr ail gyfnod ymgynghori wedi ystyried yr holl gynrychiolaethau a dderbyniwyd (yn y ddau ymgynghoriad) ac yn y gwrandawriadau cyhoeddus, a gwnaethant gynhyrchu adroddiad argymhellion a gyflwynwyd i'r Comisiwn mewn cyfarfod ym mis Mehefin. Hwyluswyd cynhyrchu adroddiad y Comisiynyddwyr Cynorthwyol a'r cyflwyniad gan Ysgrifenyddiaeth y Comisiwn.
5. Yng ngoleuni'r cynrychiolaethau a dderbyniwyd ynglŷn â'i gynigion cychwynnol, penderfynodd y Comisiwn ddiwygio ei gynigion. Wrth ddatblygu'r cynigion diwygiedig

hyn, ystyriodd y Comisiwn y cynrychiolaethau a'r argymhellion a wnaed gan y Comisiynwyr Cynorthwyol.

6. Yna, lluniodd yr Ysgrifenyddiaeth yr adroddiad yn amlinellu'r Cynigion Diwygiedig, a rhesymau'r Comisiynwyr, cyn iddo gael ei gwblhau'n derfynol a'i gymeradwyo gan y Comisiynwyr. Wedi hynny, cafodd yr adroddiad ei gyfieithu, ei wirio a'i argraffu. Gwnaed trefniadau i'r wefan a'r porth ymgynghori gael eu diweddarau yn unol â hynny.
7. Cyhoeddwyd yr adroddiad Cynigion Diwygiedig ar 19 Hydref 2022. Erbyn diwedd y cyfnod ymgynghori pedair wythnos statudol ar 15 Tachwedd 2022, roedd y Comisiwn wedi derbyn 623 o gyflwyniadau ysgrifenedig.

### **Camau Nesaf**

8. Mae'r cynrychiolaethau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori ar y Cynigion Diwygiedig wedi cael eu prosesu erbyn hyn, ac mae'r Comisiwn wrthi ar hyn o bryd yn paratoi ei adroddiad Argymhellion Terfynol.
9. Mae'r Comisiwn yn hyderus y bydd mewn sefyllfa i gyflwyno ei adroddiad terfynol cyn y dydiad cau statudol, sef cyn 1 Gorffennaf 2023.

**Mrs Ustus Jefford DBE**  
**Dirprwy Gadeirydd**

**Mr Huw Vaughan Thomas CBE**  
**Comisiynydd**

**Mr Sam Hartley**  
**Comisiynydd**

**Mrs Shereen Williams MBE OStJ DL**  
**Ysgrifennydd**



**Comisiwn Ffiniau  
i Gymru**

---

**Boundary Commission  
for Wales**

Mae'r Comisiwn yn croesawu gohebiaeth, e-byst a galwadau ffôn yn Gymraeg neu Saesneg.  
Er mwyn cysylltu gyda'r Comisiwn, ysgrifennwch i:

Comisiwn Ffiniau i Gymru  
Llawr Gwaelod, Ty Hastings, Llys Fitzalan  
Caerdydd, CF24 0BL

Rhif Ffon: +44 (0)29 20464819  
Rhif Ffon: +44 (0)29 21055521  
E-bost: [bcw@ffiniau.cymru](mailto:bcw@ffiniau.cymru)